Department
for Environment,
Food & Rural Affairs

# Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) rhwng y DU a'r UE

## Canfyddiadau'r Alwad am Wybodaeth

Gorffennaf 2026

Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sy'n arwain y byd.

Mae Defra yn adran weinidogol, gyda chefnogaeth 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig - GOV.UK

## Cynnwys

Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) rhwng y DU a'r UE .......... 1

Canfyddiadau'r Alwad am Wybodaeth .......... 1

Cefndir .......... 4

Defnyddio gwybodaeth a chyfrinachedd .......... 4

Nodyn ar y dehongli a'r rhychwant .......... 5

Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu .......... 6

Newidiadau Gweithredol .......... 6

Amserlenni Pontio .......... 7

Buddion a Chostau .......... 7

Effeithiau ar Gadwyni Cyflenwi a Rhanbarthau .......... 8

Anghenion Cymorth .......... 9

Sut y byddwn ni'n defnyddio'r canfyddiadau hyn .......... 9

# Cefndir

Ar 19 Mai 2025, daeth llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (UE) i gytundeb i fynd ar ôl Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) newydd. Câi'r Cytundeb arfaethedig ei seilio ar gysoniad deinamig â rheolau SPS perthnasol yr UE a byddai'n gymwys i Brydain Fawr ac yn rhyngweithio â'r trefniadau presennol sy'n llywodraethu symudiadau sy'n cynnwys Gogledd Iwerddon o dan Fframwaith Windsor. Disgwylir iddo gynnwys masnachu, cynhyrchu a symud planhigion, anifeiliaid a'u cynhyrchion; diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid; meysydd sy'n gysylltiedig â maeth gan gynnwys atchwanegiadau bwyd a labelu; safonau ehangach ar farchnata a chyfansoddiad bwyd-amaeth; a rheoleiddio plaladdwyr a bioladdwyr. Er mai gwyro cyfyngedig oddi wrth ofynion yr UE a welwyd mewn rhai sectorau, mae eraill wedi gwyro ers inni ymadael â'r UE ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau er mwyn cysoni â rhychwant terfynol y Cytundeb.

I fwydo'i hymagwedd at weithredu ac at gymorth parodrwydd busnes, lansiodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) Alwad am Wybodaeth ym mis Mawrth 2026. Rhedodd yr Alwad am Wybodaeth am 6 wythnos, rhwng 9 Mawrth 2026 a 23 Ebrill 2026, ac roedd yn agored i bob parti sydd â buddiant yn hyn o beth. Prif gynulleidfa'r Alwad oedd busnesau a sefydliadau sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth, gan gynnwys cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, darparwyr logisteg, milfeddygon, cyrff masnach, porthladdoedd, a chyrff gorfodi ffiniau.

Gofynnodd yr Alwad am Wybodaeth am wybodaeth am y canlynol:

- ymwybyddiaeth o'r Cytundeb
- newidiadau gweithredol disgwyliedig sydd eu hangen ar gyfer cysoni
- amserlenni pontio er mwyn paratoi ar gyfer cysoni
- buddion a chostau disgwyliedig yn deillio o'r Cytundeb
- effeithiau ar gadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb
- sut yr hoffai sefydliadau gael eu cefnogi cyn i'r cytundeb gael ei roi ar waith.

Fe gafwyd ac fe ddadansoddwyd cyfanswm o 466 o ymatebion yn ogystal â 25 o gyflwyniadau unigryw trwy'r ebost. Cyflwynwyd bron 70% o'r ymatebion ar ran busnesau, gyda 14% arall gan sefydliadau cynrychioli busnesau (BROs).

# Defnyddio gwybodaeth a chyfrinachedd

Mae'r holl ymatebion wedi'u trin yn unol â'r ymrwymiadau a nodwyd yn yr Alwad am Wybodaeth. Nid yw enwau personol a manylion cysylltu wedi'u cyhoeddi ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn. Mae data ariannol a masnachol sensitif a ddarparwyd gan ymatebwyr wedi'i anonymeiddio yn y dadansoddiad. Mae ymatebion a nodwyd fel rhai cyfrinachol wedi'u trin yn unol â hynny. Cyhoeddir rhestr o sefydliadau a gyflwynodd ymatebion ochr yn ochr â'r crynodeb hwn; does dim enwau unigolion na manylion cysylltu personol wedi'u cynnwys yn y rhestr honno.

Gall ymatebion i'r Alwad am Wybodaeth gael eu datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu

Data 2018. Defra yw'r rheolwr data ar gyfer data personol a ddarperir drwy'r ymarfer hwn. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae Defra yn trin data personol wedi'i nodi yn Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra.

## Nodyn ar y dehongli a'r rhychwant

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r Alwad am Wybodaeth. Daeth cyfanswm o 491 o ymatebion i law: cyflwynwyd 466 drwy'r platfform ar-lein, a chyflwynwyd 25 ymateb arall trwy'r ebost mewn fformatau nad oedden nhw'n cydymffurfio â strwythur yr Alwad am Wybodaeth. Mae'r holl ddadansoddi meintiol yn y ddogfen hon wedi'i seilio ar y 466 o ymatebion strwythuredig. Mae'r 25 ymateb ebost ychwanegol wedi'u dadansoddi'n ansoddol, ac mae'r canfyddiadau o'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y themâu ansoddol a gyflwynir trwy'r crynodeb hwn i gyd.

**Ymarfer casglu gwybodaeth agored, nid ymgynghoriad ffurfiol, oedd yr Alwad am Wybodaeth. Nid yw'r canfyddiadau'n ystadegol gynrychioliadol o'r sector bwyd-amaeth yn ei gyfanrwydd; mae'r ymatebwyr yn debygol o or-gynrychioli'r rhai sydd eisoes yn ymwneud â Chytundeb SPS y DU-UE. G**weithgynhyrchwyr (18%) a chynhyrchwyr sylfaenol (12%) oedd y grwpiau mwyaf o fusnesau er bod llawer wedi dewis peidio ag ateb.  O fewn y sector Bwyd-Amaeth, Tir Âr a Garddwriaeth (29%) a Da Byw (27%) oedd y prif ymatebwyr.

Roedd busnesau'n amrywio o ficro-sefydliadau (1-9 o gyflogeion) i rai mawr (250+ o gyflogeion) o'u mesur yn ôl niferoedd y cyflogeion. O'r busnesau a nododd eu maint, dywedodd 57% eu bod yn ficro neu'n fach (llai na 50 o weithwyr). Mae'n werth nodi bod y mwyafrif eisoes yn masnachu gyda'r UE: dywedodd rhyw 62% eu bod yn gwerthu i'r UE neu'n prynu o'r UE, a allai effeithio ar eu hamlygiad blaenorol i ofynion SPS.  Nid yw'r canfyddiadau yn pennu telerau'r Cytundeb, a does dim ddadansoddiadau ar lefel sector wedi'u darparu yn y cyhoeddiad hwn.

Mae'r crynodeb hwn yn tynnu ar ddadansoddiad meintiol (cwestiynau caeedig) ac ansoddol (testun agored). Nid yw'r canfyddiadau ansoddol yn gallu cael eu cyffredinoli nac yn ystadegol; eu pwrpas oedd archwilio materion yn fanwl ar draws ystod o fusnesau a chodi set eang o safbwyntiau. Lle dyfynnir ymatebion ansoddol, maen nhw'n cynrychioli'r ystod o safbwyntiau a godwyd yn hytrach nag achosion ar draws y sector.

Cynhaliwyd yr Alwad am Wybodaeth ar gyfnod cynnar yn y gwaith o gynllunio sut i weithredu, pan nad oedd manylion llawn am rychwant, amserlen a threfniadau sector-benodol y Cytundeb ar gael eto. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ymateb yn llawn i gwestiynau penodol. Ers i'r Alwad am Wybodaeth gau, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi rhagor o wybodaeth am nifer o sectorau a bydd yn parhau i ddarparu rhagor o ganllawiau a gwybodaeth wrth i'r trefniadau gweithredu ddatblygu. Gan hynny, mae'r canfyddiadau yn adlewyrchu ciplun o bwynt penodol mewn amser.

Cyflwynir yr ymatebion fesul thema ar draws saith maes: ymwybyddiaeth ac ymgysylltu; newidiadau gweithredol; amserlenni pontio; buddion a chostau disgwyliedig; effeithiau ar gadwyni gyflenwi a rhanbarthau; ac anghenion cymorth.

# Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu

Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebwyr lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r Cytundeb, er bod hyder o ran deall ei oblygiadau yn fwy cymysg. Roedd 81% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r Cytundeb o'r blaen, gan nodi mai cyfathrebiadau'r llywodraeth a chyrff diwydiant oedd y prif ffynonellau. Nododd 87% barodrwydd i gael rhybuddion gan y llywodraeth yn y dyfodol, gan ddangos galw cryf am ymgysylltu parhaus.

Datgelodd ymatebion ansoddol set fwy cynnil o safbwyntiau. Er bod yr ymwybyddiaeth yn uchel, llai na hanner yr ymatebwyr (46%) a ddywedodd eu bod yn hyderus o ran yr hyn y byddai rheolau SPS yr UE yn ei olygu i'w busnes neu eu sector nhw, o'i gymharu â 28% nad oedden nhw'n hyderus a 21% yn niwtral.  Er hynny, roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn hyderus yn aml yn dweud bod angen rhagor o fanylion ar y rhychwant, y trefniadau pontio, a'r gweithredu.

Y rhesymau a ddyfynnwyd amlaf dros ansicrwydd oedd maes a rhychwant aneglur y Cytundeb; diffyg eglurder ar amserlenni; ansicrwydd ynghylch gofynion cydymffurfio a dogfennau; ac, i rai, pryderon am annibyniaeth reoleiddio.

# Newidiadau Gweithredol

Dangosodd dadansoddiad meintiol o'r ymatebion fod 71% o'r ymatebwyr yn rhag-weld rhywfaint o newid gweithredol, gyda'r mwyafrif yn disgwyl i hyn fod yn fach i gymedrol. Y newidiadau mwyaf a ddisgwylid oedd prosesau cydymffurfio a rheoleiddio (58%); labelu a phecynnu (40%); newidiadau mewn contractau (32%); a systemau TG a digidol (30%).

Rhoddodd yr ymatebion ansoddol gyd-destun ychwanegol pwysig. Dywedodd busnesau yn y sectorau mwyaf rheoledig, yn enwedig y rhai sydd angen cymeradwyaeth ffurfiol, y gall fod angen iddyn nhw roi prosesau newydd ar waith. Nododd rhai y byddai'r amser angenrheidiol i baratoi yn dibynnu i raddau helaeth ar brosesau cymeradwyo rheoleiddwyr, yn hytrach na'u parodrwydd gweithredol nhw eu hunain, gan dynnu sylw at y ffaith bod rhai ffactorau sy'n effeithio ar barodrwydd y tu allan i reolaeth uniongyrchol busnesau.

O ran labelu a phecynnu, cafodd pryderon eu codi'n fwyaf cyffredin gan weithgynhyrchwyr bwyd a diod a manwerthwyr sy'n cyflenwi nwyddau defnyddwyr. Tynnodd yr ymatebwyr hyn sylw at gymhlethdod diddymu labeli 'Not for EU', gan nodi bod penderfyniadau ar ôl ymadael â'r UE, megis buddsoddi mewn rhediadau labelu ar wahân, yn golygu bod y costau posibl yn amrywio'n sylweddol rhwng busnesau hyd yn oed o fewn yr un sector. Cododd rhai y risg y bydd rhaid dileu stoc os nad yw'r trefniadau pontio yn caniatáu i'r stoc bresennol sydd wedi'i labelu gael ei gwerthu drwodd.

Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod newidiadau mewn contractau ac mewn cadwyni cyflenwi yn aml yn mynd gyda'i gilydd, gan gynnwys ail-negodi cytundebau gyda chyflenwyr, ac mewn rhai achosion, newid sut mae cynhyrchion yn cael eu cyrchu. Nododd sawl un mai rheolaeth gyfyngedig sydd ganddyn nhw dros rannau eraill o'u

cadwyn gyflenwi, gyda chyflymder newidiadau weithiau'n dibynnu ar ffactorau allanol fel capasiti labelu ac argraffu. Disgrifiodd y rhai y mae eu gweithrediadau'n dibynnu'n fawr ar ardystio, gwasanaethau ar y ffin, neu gynhyrchion sydd angen ailasesiad gan y rheoleiddwyr newidiadau sylweddol posibl. Nododd rhai fod yr ansicrwydd presennol yn ei gwneud hi'n anodd asesu graddfa'r newid sydd ei angen.

# Amserlenni Pontio

Mae dadansoddiad meintiol yn dangos amrywio yn yr isafswm amser arweiniol y mae busnesau wedi nodi y byddai arnyn nhw ei angen er mwyn bod yn barod ar gyfer cysoni. Dywedodd 29% y byddai angen o leiaf 0–3 mis tra dywedodd 25% y byddai arnyn nhw angen dros flwyddyn o leiaf. Mae'r amrywio hwn yn adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol ym maint busnesau, sectorau, a natur y newidiadau angenrheidiol, gan ddangos pam y gallai busnesau fod angen gwahanol fathau o ganllawiau a chymorth wrth i'r trefniant gweithredu ddatblygu. Awgrymodd y data meintiol fod yr ymatebwyr yn rhag-weld costau uwch lle roedd yr amserlenni gweithredu'n fyrrach, gyda phwysau costau'n lleddfu wrth i'r amser arweiniol gynyddu.

Dangosodd yr ymatebion ansoddol mor bwysig yw amser pontio digonol i'r busnesau hynny sy'n wynebu'r newid gweithredol mwyaf arwyddocaol. Mae'r ymatebion testun agored yn cysylltu hyn â newidiadau ym modelau'r cadwyni cyflenwi, yr angen i ddiweddaru systemau TG neu i weithio trwy brosesau cymeradwyo rheoleiddwyr sydd y tu allan i'w rheolaeth uniongyrchol.

Nododd ymatebwyr ar draws ystod o sectorau fod hyd yr amser pontio sydd ei angen yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar natur y newidiadau angenrheidiol, a bod i rai prosesau, yn enwedig ailasesiadau rheoleiddwyr ac ailstrwythuro'r gadwyn gyflenwi, amserau arweiniol na all busnesau eu cyflymu'n unochrog. Nododd sawl ymatebydd fod gwaith cynllunio manwl yn dal yn anodd nes y bydd y rhychwant a'r amserlen derfynol wedi'u cadarnhau.

# Buddion a Chostau

Rhagwelai'r ymatebwyr y byddai'r cytundeb SPS yn darparu manteision, er bod y safbwyntiau yn amrywio'n sylweddol yn ôl sector a gradd yr amlygiad i fasnach yr UE. Llai o gostau cydymffurfio oedd y budd a ddyfynnwyd amlaf, wedi'i ddewis gan 68% o'r ymatebwyr. Dyfynnwyd gwell mynediad i'r farchnad, costau mewnforio llai a mwy o allforion gan ryw hanner yr ymatebwyr. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu sylfaen ymatebwyr lle mae 62% eisoes yn masnachu gyda'r UE ac ar hyn o bryd yn wynebu anawsterau sylweddol ar y ffin.

Rhoddodd yr ymatebion ansoddol gyd-destun ychwanegol i'r ffigurau bras hyn. Prif thema' ymatebion testun agored ar fuddion oedd arbedion cost a llai o faich gweinyddol, gyda 134 o 215 o ymatebwyr ansoddol yn nodi'r budd hwn. Roedd y rhain yn gysylltiedig yn

gyffredin â dileu neu symleiddio gofynion ardystio a dogfennau, megis Tystysgrifau Iechyd Allforio a thystysgrifau ffytoiechydol. Ail thema allweddol oedd prosesau ar y ffin, gyda 51 o ymatebion yn cysylltu buddion disgwyliedig â llai o arolygiadau, symudiadau cyflymach a llai o oedi. Nodwyd gwell mynediad i'r farchnad a chyfleoedd o ran maint y fasnach, gan gynnwys sicrhau mynediad eto i farchnadoedd allforio sydd ar gau ers inni ymadael â'r UE, megis allforio tatws hadyd, gan 42 o ymatebwyr.

O ran costau, costau cydymffurfio untro oedd yn cael eu rhag-weld amlaf (36%), ac wedyn costau gweithredol parhaus (26%) a hyfforddiant staff (24%). Nododd 23% o'r ymatebwyr ansicrwydd ynghylch pa gostau i'w disgwyl. Roedd yr ymatebion testun agored ansoddol ar y costau a ddisgwylid yn aml yn codi beichiau ariannol a chynnydd mewn costau (78 o ymatebion), ac wedyn ansicrwydd sy'n cyfyngu ar y gallu i gynllunio (37), a goblygiadau ar gyfer gweithlu a sgiliau (34). Cyfeiriodd llai at newidiadau labelu a phecynnu (18), systemau TG a digidol (20), ac ardystio a dogfennau (17).

Doedd y safbwyntiau ddim i gyd yn gadarnhaol. Nododd rhyw chwarter yr ymatebwyr ansoddol naill ai nad oedd unrhyw fudd disgwyliedig yn sgil cysoni neu fod ansicrwydd ynghylch rhychwant a gweithredu'r Cytundeb yn atal unrhyw asesiad ystyrlon o'r effaith net ar eu busnes.

# Effeithiau ar Gadwyni Cyflenwi a Rhanbarthau

Mae 56% o'r ymatebwyr yn rhag-weld y bydd cysoni'r gofynion SPS yn effeithio ar weithrediadau eu cadwyn gyflenwi. Y meysydd a grybwyllwyd fwyaf oedd cliriadau a gwiriadau ar y ffin, a thrafnidiaeth a logisteg, ac wedyn cydymffurfiaeth cyflenwyr a chyrchu deunyddiau crai. Gallai hyn adlewyrchu'n rhannol fod 62% o'r ymatebwyr yn fusnesau sy'n masnachu gyda'r UE, a soniodd yn gyffredinol am fwy o effeithiau disgwyliedig ar fasnach yr UE nag ar fasnach gyda gweddill y byd.

Dangosodd yr ymatebion ansoddol effeithiau disgwyliedig cymysg. Ymhlith yr effeithiau cadarnhaol a ddyfynnwyd amlaf roedd lleihau oedi ar y ffin, amserau arweiniol byrrach a mwy rhagweladwy, gwaith papur symlach a logisteg llwythi, lleihau costau storio, a gwell rheolaeth stoc. Roedd yr effeithiau negyddol ac ansicr yn canolbwyntio ar gost a chymhlethdod ailstrwythuro rhwydwaith cyflenwyr, y byddai'r cyfnod pontio yn tarfu ar gynhyrchion sydd â bywyd silff byr neu gylchoedd cynhyrchu hir, a phryderon am hyfywedd ymysg busnesau y mae eu modelau presennol yn dibynnu ar ardystiadau, gwiriadau ar y ffin, neu wasanaethau cysylltiedig. Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn amau na fyddai'r buddion disgwyliedig yn fwy na'r costau gweithredu ar gyfer eu hamgylchiadau penodol nhw, a dywedodd rhai fod y manylion annigonol yn atal unrhyw asesiad ystyrlon o'r effaith net ar y gadwyn gyflenwi.

O ran effeithiau rhanbarthol, roedd 43% o'r ymatebwyr yn rhag-weld effeithiau rhanbarth-benodol. Lloegr oedd y rhanbarth y disgwylid iddo gael ei effeithio fwyaf (wedi'i ddewis gan 34% o'r ymatebwyr), ac wedyn Gogledd Iwerddon (26%), yr UE (23%), yr Alban (19%),

Gweriniaeth Iwerddon (17%), Cymru (17%) a Gweddill y Byd (8%). Tynnodd rhai ymatebwyr o Ogledd Iwerddon sylw at y rhyngweithio rhwng y Cytundeb SPS a Fframwaith Windsor, yn enwedig mewn perthynas â symudiadau sy'n gysylltiedig ag SPS yn y dyfodol a'r gofynion cysylltiedig. Galwodd nifer fach am asesiadau effaith gwahaniaethol ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig, gan nodi bod y gwahaniaethau rheoleiddio ers inni ymadael â'r UE yn golygu na fydd yr effeithiau'n unffurf ar draws Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

# Anghenion Cymorth

Ar draws yr ymatebion meintiol ac ansoddol, dywedodd busnesau yr hoffen nhw gael gwybodaeth gliriach, fanylach a mwy amserol gan y llywodraeth. Prif themâu'r ymatebion ansoddol ar anghenion cymorth oedd yr angen am ganllawiau clir, ymarferol (148 o ymatebion); amser arweiniol digonol a gweithredu fesul cam (99); y mecanweithiau ymgysylltu a'r chymorth a ffefrid (60); a'r angen am eglurder ar rychwant a maes y gofynion (36).

Yn feintiol, y fformatau cyfathrebu mwyaf ffafriol oedd cylchlythyrau, gweminarau a sesiynau addysgu a fforymau ledled y diwydiant. Ychwanegodd ymatebion ansoddol fanylion pellach, gydag ymatebwyr yn galw am ganllawiau sector-benodol, cynnwys swyddogion sydd â gwybodaeth arbenigol o'u diwydiant, sesiynau Holi ac Ateb byw gydag arbenigwyr rheoleiddio, cyd-ddylunio canllawiau ar y cyd, a Chwestiynau Cyffredin cyfredol, gyda ffafriaeth gref o blaid darparu diweddariadau'n brydlon wrth i'r manylion gweithredu ddod ar gael. Gofynnodd rhyw hanner yr ymatebion ansoddol ar gyfathrebu yn benodol am negeseuon sector-benodol yn hytrach na negeseuon SPS generig.

O ran y dulliau cysylltu a ffefrir, ebost a sianeli ar-lein oedd yn cael eu dyfynnu amlaf, er y gall fformat ar-lein yr Alwad am Wybodaeth olygu bod yr angen am ymgysylltu all-lein ac yn uniongyrchol wedi'i dangynrychioli. Cafwyd ceisiadau am gyfarfodydd personol, cyswllt ffôn, a grwpiau cynghori i randdeiliaid mewn sectorau penodol yn yr ymatebion testun agored.

Heblaw cyfathrebiadau a chanllawiau, gofynnodd sawl ymatebydd am gymorth ariannol i gynorthwyo gyda chostau gweithredu, a galwodd sawl un am fuddsoddi yn adnoddau a gallu'r awdurdodau rheoleiddio perthnasol i sicrhau bod y rhain yn gallu ymateb yn brydlon i ymholiadau busnesau.

# Sut y byddwn ni'n defnyddio'r canfyddiadau hyn

Bydd canfyddiadau'r Alwad am Wybodaeth yn bwydo ymagwedd Defra at gymorth gweithredu, cyfathrebu, a gweithgarwch parodrwydd busnes wrth inni gwblhau negodi'r Cytundeb SPS a chynllunio ar gyfer gweithredu wedyn a dod â'r Cytundeb i rym. Mae'r

Alwad am Wybodaeth wedi rhoi dirnadaeth werthfawr o'r ystod o newidiadau gweithredol y mae busnesau yn eu rhag-weld a'r mathau o ganllawiau ac ymgysylltu a fyddai'n fwyaf defnyddiol.

Bydd Defra’n defnyddio'r canfyddiadau hyn i siapio sut mae'r llywodraeth yn cyfathrebu â busnesau ac i gydweithio’n agos ag adrannau, asiantaethau a phartneriaid cyflawni eraill y llywodraeth i sicrhau bod busnesau a sefydliadau yn cael cymorth cydlynol, ymarferol wrth i’r trefniadau gweithredu ddatblygu.

Bydd Defra’n parhau i ymgysylltu â busnesau a sefydliadau cynrychioliadol wrth i ragor o fanylion am rychwant, amserlen a threfniadau gweithredu'r Cytundeb ddod ar gael.

Mae rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r Alwad am Wybodaeth wedi'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Nid yw enwau personol a manylion cysylltu wedi'u cynnwys.